CYMRU ENFYS

Stonewall

# ATYNIAD, HUNANIAETH A CHYSYLLTIAD YNG NGHYMRU YN 2023

YSGRIFENEDIG GAN ROBBIE DE SANTOS A DAVINIA GREEN

# CYFLWYNIAD

**Ers degawdau erbyn hyn, rydyn ni wedi gweld gwelliant sylweddol yn y ffordd mae perthnasoedd lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cael eu derbyn gan y gymdeithas a chynnydd araf ond cyson yn y ganran o'r boblogaeth sy'n arddel hunaniaeth lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (mae mesur y boblogaeth draws ac agweddau at bobl draws drwy arolygon cymdeithasol yn ffenomen fwy newydd, felly dydy'r un data hydredol ddim ganddon ni).**

**Mae pobl LHDTC+, ein bywydau a'n profiadau bellach yn fwy gweladwy nag y buon nhw erioed ym mhob cymuned ac ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru.**

**Mae'r adroddiad arloesol yma sy'n defnyddio data gan Ipsos Mori ac Opinium ac o Gyfrifiad Cymru a Lloegr 2021, yn rhoi darlun o Gymru sy'n dod yn wlad fwy amrywiol a chynhwysol.**

**Mae data'r Cyfrifiad yn dangos, gyda phob cenhedlaeth, bod mwy o bobl yn arddel hunaniaeth lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws. Ac wrth i ni edrych y tu hwnt i'r labeli ac ar bwy rydyn ni'n eu nabod a'r hyn rydyn ni'n ei deimlo, rydyn ni'n gweld bod Cymru'n wlad lle mae mwy a mwy ohonon ni'n teimlo'n gyfforddus yn cydnabod ein hatyniad ni ein hunain at bobl o'r un rhyw, wrth i ni ddod i nabod mwy a mwy o bobl LHDTC+ ym mhob rhan o'n bywydau.**

**Wrth i Stonewall Cymru nodi 20 mlynedd o ymgyrchu a phartneriaethau i ddatblygu cydraddoldeb LHDTC+ yng Nghymru, ac wrth i Lywodraeth Cymru lansio Cynllun Gweithredu LHDT+ arloesol, rydyn ni'n bwrw golwg ar y gymuned LHDTC+ yng Nghymru ac ar ein safle yn y gymdeithas.**

## DYMA'N CENEDL ENFYS: GWLAD LLE MAE MWY A MWY O BOBL LHDTC+ YN DOD ALLAN WRTHON NI EIN HUNAIN AC WRTH Y BYD O'N CWMPAS, A GWLAD LLE MAE POB CYMUNED A PHOB TEULU YN MEITHRIN CYSYLLTIADAU O GARIAD A CHYFEILLGARWCH GYDA PHOBL LHDTC+.



# CYNNWYS


DULL 4

CHAPTER 1:
PWY YDYN NI A BLE RYDYN NI'N BYW 5

CHAPTER 2:
PWY YDYN NI'N EU NABOD A BETH YDYN NI'N EI WYBOD AMDANYN NHW? 9

CHAPTER 3:
BETH YDYN NI'N EI DEIMLO? 12

CHAPTER 4:
CASGLIADAU 15

# DULL

Mae'r adroddiad yma'n defnyddio data o dair set ddata i greu darlun o fywyd LHDTC+ yng Nghymru.

- Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021 (Mawrth 2021)
- Arolwg barn gan Opinium o oedolion ledled gwledydd Prydain (Rhagfyr 2021)
- Cyfres o dri arolwg barn gan Ipsos UK o oedolion ledled Prydain Fawr (Mehefin – Awst 2022)

## CYFRIFIAD CYMRU A LLOEGR 2021

Ym mis Mawrth 2021, gofynnodd Cyfrifiad Cymru a Lloegr gwestiynau gwirfoddol am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd.

## METHODOLEG OPINIUM

Ym mis Rhagfyr 2021, gofynnodd Stonewall i ychydig dros 2000 o oedolion sy'n byw ledled gwledydd Prydain sut roedden nhw'n teimlo am bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws. Roedd hyn yn cynnwys sampl o 168 o oedolion yn yr Alban a sampl o 96 o oedolion yng Nghymru.

Fe wnaethon ni holi ar wahân am bob un o'n cymunedau a chynnig cyfle i ymatebwyr ddewis cymaint o opsiynau ag roedden nhw'n dymuno. Yr opsiynau a gynigiwyd iddynt oedd: parch, edmygedd, trueni, ffieidd-dod, chwerwder, ofn a chenfigen, yn ogystal â 'methu dewis' ac 'mae'n well gen i beidio dweud'.

Mae'r cwestiynau yma'n seiliedig ar gwestiwn am agweddau'r cyhoedd tuag at bobl draws a gafodd ei brofi a'i ddefnyddio yn Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain 2019, fel rhan o ddarn o waith a gomisiynwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 1, ac mae'r tablau data yn Atodiad 2

## METHODOLEG IPSOS

Daw'r data yma o dri arolwg oedd yn defnyddio Omnibws ar-lein Ipsos UK. Cyfwelodd Ipsos UK â sampl cwota cynrychioliadol o 2,150 o Brydeinwyr 16-75 oed rhwng 10 a 14 Mehefin (gan gynnwys 105 yng Nghymru). Cynhaliwyd ail arolwg barn gyda sampl cwota cynrychioliadol o 2,176 o Brydeinwyr 16-75 oed rhwng 10 a 13 Mehefin (gan gynnwys 107 yng Nghymru). Cynhaliwyd trydydd arolwg barn gyda sampl cwota cynrychioliadol o 2,187 o Brydeinwyr 16-75 oed rhwng 5 ac 8 Awst 2022 (gan gynnwys 109 yng Nghymru).

Mae'r data wedi'i bwysoli i gyfateb i broffil y boblogaeth oddi ar-lein. Gall ystod eang o wallau posib effeithio ar bob arolwg barn.

Oherwydd gwahaniaethau o ran methodoleg a geiriad cwestiynau, ni ddylai ffigurau ar hunaniaeth a chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd gael eu hystyried yn gymaradwy â ffigurau'r Cyfrifiad.

# PENNOD 1
# PWY YDYN NI?

## CYFEIRIADEDD RHYWIOL

Y ffordd arferol rydyn ni i gyd yn trafod cyfeiriadedd rhywiol mewn bywyd bob dydd ac mewn ymchwil gymdeithasol yw defnyddio categorïau a gofyn i bobl pa gategori sydd fwyaf addas iddyn nhw.

Gofynnodd Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021 gwestiynau gwirfoddol am eu cyfeiriadedd rhywiol i'r boblogaeth 16+ oed gyfan

### GOFYNNODD Y CYFRIFIAD:
### PA RAI O'R TERMAU CANLYNOL Y BYDDECH CHI'N EU HARDDEL, OS O GWBL?

- Heterorywiol/syth
- Deurywiol
- Hoyw
- Arywiol
- Panrywiol
- Lesbiaidd
- Omnirywiol
- Arall (nodwch)
- Ddim yn gwybod
- Well gen i beidio dweud

Ymatebodd cyfanswm o 77,000 o bobl yng Nghymru eu bod yn hoyw, yn lesbiaidd, yn ddeurywiol neu'n gyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol arall. O'r rhain:

Ymatebodd 38,000 o bobl eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd

Ymatebodd 32,000 o bobl eu bod yn ddeurywiol

Ymatebodd 7,000 o bobl fod ganddyn nhw gyfeiriadedd rhywiol arall, gyda nifer sylweddol o ymatebion gan bobl wnaeth nodi panrywiol (4,500), anrhywiol (1,500) a chwiar (500).

Gan edrych ledled Cymru, yr ardaloedd awdurdod lleol oedd â'r gyfran uchaf o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol oedd Caerdydd, Ceredigion a Chasnewydd.

# CYFEIRIADEDD RHYWIOL, OEDRAN A RHYW

| OEDRAN | % YN ARDDEL HUNANIAETH LESBIAIDD, HOYW, DDEURYWIOL NEU ARALL (LHD+) |
|---|---|
| 16 - 24 | 7.9% |
| 25 - 34 | 6.1% |
| 35 - 44 | 3.6% |
| 45 - 54 | 2.2% |
| 55 - 64 | 1.4% |
| 65 - 74 | 0.7% |
| 75 NEU'N HŶN | 0.2% |

Mae'r ffigurau ar gyfer Cymru yn rhoi darlun clir o genedlaethau iau sy'n llawer mwy tebygol o arddel hunaniaeth LHD+, gyda gwahaniaeth arbennig o glir rhwng y rhai o dan 35 oed a'r rhai sy'n 35 oed neu'n hŷn. Bydd y rhai sydd o dan 35 oed wedi gweld llai o effaith yn sgil Adran 28, y ddeddfwriaeth oedd yn gwahardd ysgolion ac awdurdodau lleol rhag 'hyrwyddo cyfunrywioldeb' a gafodd ei diddymu yn 2003.

Wrth edrych ar gyfrannau'r dynion a'r menywod yng Nghymru sy'n nodi eu bod yn LHD+, gallwn weld bod 3.4% o fenywod yn arddel hunaniaeth LHD+, a 2.7% o ddynion.

Mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng dynion a menywod LHD+ yng Nghymru i'w weld ymhlith pobl ifanc 16-24 oed, lle mae 11.1% o fenywod yn nodi eu bod yn LHD+ a 5% o ddynion yn nodi eu bod yn LHD+, tra bod dynion 65-74 oed a 75+ oed tua dwywaith yn fwy tebygol o arddel hunaniaeth LHD+ na menywod.

# EDRYCH Y TU HWNT I'R LABEL


Beth sy'n digwydd pan edrychwn ni y tu hwnt i'r label, ac yn lle gofyn i bobl pa gyfeiriadedd rhywiol maen nhw'n ei arddel, gofyn iddyn nhw pwy maen nhw'n ei weld yn rhywiol atyniadol?

Mae'r darlun yn newid yn ddramatig. Gofynnodd ein harolwg gydag Ipsos UK yn haf 2022:

## PA UN, OS O GWBL, O'R CANLYNOL SY'N DISGRIFIO ORAU SUT RYDYCH CHI'N MEDDWL AM EICH CYFEIRIADEDD RHYWIOL?

- Dim ond yn teimlo atyniad at bobl o'r un rhyw
- Atyniad at bobl o'r un rhyw yn bennaf
- Yr un faint o atyniad at bobl o'r ddau ryw
- Atyniad at bobl o'r rhyw arall yn bennaf
- Dim ond yn teimlo atyniad at bobl o'r rhyw arall
- Ddim yn teimlo atyniad at bobl o'r naill ryw na'r llall
- Does dim un o'r rhain yn disgrifio fy nghyfeiriadedd rhywiol yn gywir
- Ddim yn gwybod
- Mae'n well gen i beidio dweud

## ATYNIAD




Dim ond 66% o bobl Cymru sy'n dweud mai dim ond at bobl o'r rhyw arall maen nhw'n teimlo atyniad.

Gan ystyried y ganran fach o bobl sydd naill ai ddim yn gwybod (1%) neu y mae'n well ganddyn nhw beidio dweud (0%) at bwy maen nhw'n teimlo atyniad; mae hyn yn golygu bod 34% o'r boblogaeth o leiaf ychydig bach yn cwiar.

Mae canran y bobl sy'n dweud mai dim ond at bobl o'r un rhyw maen nhw'n teimlo atyniad yn sylweddol uwch na'r ganran sy'n defnyddio'r labeli hunaniaeth lesbiaidd neu hoyw. Ac mae canran y bobl sy'n disgrifio atyniadau sy'n cyd-fynd â chyfeiriadedd rhywiol panrywiol neu ddeurywiol yn sylweddol uwch na'r ganran sy'n defnyddio'r labeli hynny yn y Cyfrifiad.

Beth mae hyn yn ei olygu? Yn gyntaf, mae'n golygu, pan fyddwn yn trafod bywydau a pherthnasoedd LHDTC+, ein bod yn trafod grŵp ehangach na'r rhai sy'n gweld eu hunain yn benodol fel rhan o'r gymuned. Ddylai hyn ddim bod yn newyddion: ers blynyddoedd, mae maes iechyd rhywiol yn targedu 'dynion sy'n cael rhyw gyda dynion' fel cynulleidfa, er mwyn darparu gwasanaethau iechyd a hybu iechyd i bawb sydd ei angen. Yn ail, mae'n rhoi ymdeimlad i ni o wir batrwm atyniad rhywiol yn y boblogaeth – ymdeimlad o faint o bobl a allai ddod allan ryw ddydd mewn byd lle na fyddai gwahaniaethu yn erbyn pobl LHDTC+ yn bodoli, a lle byddai pawb yn rhydd i fyw ein bywydau.

# HUNANIAETH RHYWEDD

Gofynnodd Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021 gwestiynau gwirfoddol am eu hunaniaeth rhywedd i'r boblogaeth 16+ gyfan.

### PA RAI O'R TERMAU CANLYNOL Y BYDDECH CHI'N BERSONOL YN EU DEFNYDDIO I DDISGRIFIO'CH RHYWEDD, OS O GWBL?

- Menyw
- Dyn
- Menyw draws
- Dyn traws
- Anneuaidd
- Genderqueer / rhyweddhylifol
- Di-rywedd
- Hunaniaeth rhywedd arall (nodwch)
- Mae'n well gen i hunan-ddisgrifio (nodwch)
- Ddim yn gwybod
- Well gen i beidio dweud

Ymatebodd cyfanswm o 10,500 o bobl yng Nghymru gan ddweud bod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r categori rhyw y rhoddwyd nhw ynddo adeg eu geni. O'r rhain roedd tua:

1,900 yn ddynion traws

2,200 yn fenywod traws

1,600 yn anneuaidd

Nododd 900 hunaniaeth rhywedd arall a dywedodd 4,000 fod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r categori rhyw y rhoddwyd nhw ynddo adeg eu geni, ond heb nodi hunaniaeth benodol.

## HUNANIAETH RHYWEDD AC OEDRAN

| OEDRAN | % YN ARDDEL HUNANIAETH DRAWS |
|---|---|
| 16 - 24 | 1% |
| 25 - 34 | 0.7% |
| 35 - 44 | 0.4% |
| 45 - 54 | 0.3% |
| 55 - 64 | 0.2% |
| 65 - 74 | 0.1% |
| 75 NEU'N HŶN | 0.1% |

Mae'r ffigurau ar gyfer Cymru yn rhoi darlun clir bod y cenedlaethau iau yn fwy tebygol o arddel hunaniaeth draws, ond gyda newid mwy graddol rhwng y cenedlaethau na'r hyn a welwn wrth edrych ar gyfeiriadedd rhywiol.

# PENNOD 2

# PWY YDYN NI'N EU NABOD (A BETH YDYN NI'N EI WYBOD AMDANYN NHW?)

Mae profiad bob dydd pobl LHDTC+ a'n lle mewn cymdeithas yn ymwneud nid yn unig â pha mor fawr yw'n cymuned; mae hefyd yn ymwneud â pha mor weladwy a rhyng-gysylltiedig ydyn ni yn y gymdeithas ehangach.

Mae ein Cenedl Enfys yn cynnwys pobl LHDTC+ a'r holl bobl sy'n ein nabod ac sy'n teimlo ein bod ni'n bwysig iddyn nhw.

Fe ofynnon ni gyfres o dri chwestiwn i ddeall pa mor dda mae'r cyhoedd yn nabod pobl LHDTC+. Fe ofynnon ni ar wahân am bobl ddeurywiol, gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod pobl ddeurywiol yn llawer llai tebygol o fod allan na phobl lesbiaidd a hoyw[1] , ac o ganlyniad mae'n bosib y bydden ni'n disgwyl i'r cyhoedd fod yn llai tebygol o nabod neu o fod â chysylltiad â phobl ddeurywiol. Fe wnaethon ni hefyd ofyn ar wahân am bobl draws gan fod y boblogaeth draws yn fach iawn, ac mai dim ond yn ddiweddar y mae wedi dod yn fwy gweladwy i'r cyhoedd.

### FE OFYNNON NI:
### GAN FEDDWL AM BOBL LESBIAIDD A HOYW, PA RAI O'R CANLYNOL, OS O GWBL, SY'N BERTHNASOL I CHI?
### GAN FEDDWL AM BOBL DDEURYWIOL, PA RAI O'R CANLYNOL, OS O GWBL, SY'N BERTHNASOL I CHI?
### GAN FEDDWL AM BOBL DRAWSRYWEDDOL, PA RAI O'R CANLYNOL, OS O GWBL, SY'N BERTHNASOL I CHI?

- Dw i wedi dod ar draws neu wedi cwrdd â phobl fel hyn
- Hyd y gwn i, dw i erioed wedi cwrdd na dod ar draws rhywun fel hyn
- Dw i'n gwybod am enwogion neu bobl yn y cyfryngau sydd fel hyn
- Mae gen i gydnabod fel hyn
- Mae gen i ffrindiau personol/teulu fel hyn
- Dw i fy hunan fel hyn
- Ddim yn gwybod


**1. LHDT ym Mhrydain: Adroddiad Gwaith (2018) Stonewall. Mae'r data'n dangos nad oedd 38% o bobl ddeurywiol allan wrth neb yn eu gweithle.**

# CYSYLLTIADAU Â PHOBL LESBIAIDD A HOYW

Mae gan hanner y boblogaeth (50%) ffrind personol neu aelod o'r teulu sy'n lesbiaidd neu'n hoyw. Mae ymhell dros hanner y boblogaeth (59%) wedi cwrdd â rhywun lesbiaidd neu hoyw, mae gan ychydig llai na thraean (28%) gydnabod sy'n lesbiaidd neu'n hoyw a gall 32% feddwl am enwogion lesbiaidd neu hoyw.

Dim ond 9% o'r boblogaeth sy'n dweud nad ydyn nhw erioed, hyd y gwyddan nhw, wedi cwrdd â rhywun lesbiaidd neu hoyw.

## CYSYLLTIAD





# CYSYLLTIADAU Â PHOBL DDEURYWIOL

Er ei bod yn gymuned fwy o faint na phobl lesbiaidd a hoyw, ac yn gymuned sy'n tyfu'n gyflymach, mae pobl ddeurywiol yn llai gweladwy ac yn llai cysylltiedig mewn cymunedau ehangach.

Dim ond 25% o'r cyhoedd sydd â ffrind neu aelod o'r teulu sy'n ddeurywiol, o gymharu â 50% o bobl a ddywedodd fod ganddyn nhw ffrind neu aelod o'r teulu sy'n lesbiaidd neu'n hoyw. Ychydig dros draean o'r cyhoedd (39%) sy'n dweud eu bod wedi cwrdd â phobl ddeurywiol, o gymharu â bron i chwech ym mhob deg sy'n dweud eu bod wedi cwrdd â rhywun lesbiaidd neu hoyw. Mae pobl ddeurywiol hyd yn oed yn llai gweladwy yn y cyfryngau: ychydig llai nag un ym mhob pump (19%) o bobl sy'n gwybod am enwogyn deurywiol.

Un esboniad posib am y gwahaniaethau yma yw bod pobl ddeurywiol yn llai tebygol o fod allan mewn mannau allweddol fel gweithleoedd, felly mae'n bosib bod llai o bobl yn gwybod bod eu ffrindiau a'u cydnabod yn ddeurywiol. Un arall yw mai un o elfennau deuffobia yw peidio cydnabod hunaniaeth ddeurywiol a gweld pobl ddeurywiol fel pobl syth. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed pan fo pobl ddeurywiol allan yn eu bywyd cyhoeddus neu breifat, nad yw hynny bob amser yn cael ei gydnabod a'i barchu.

## CYSYLLTIAD




# CYSYLLTIAD Â PHOBL DRAWS

O ystyried maint y gymuned draws, a'r cyfnod cymharol fyr mae pobl draws wedi gallu byw fel nhw eu hunain a bod yn weladwy yn y gymdeithas ehangach, nid yw'n syndod bod y ganran o'r cyhoedd sydd ag aelod o'r teulu neu ffrind agos sy'n draws yn gymharol fach: dim ond 16% ohonon ni sydd â ffrind neu aelod o'r teulu sy'n draws.

Wedi dweud hynny, pan fyddwn yn cynnwys cydnabod, mae 14% o'r boblogaeth yn nabod rhywun traws yn eu bywydau go iawn, ac mae bron i draean (32%) wedi cwrdd â rhywun traws.

Mae'n werth cydnabod hefyd bod cyfran sylweddol (12%) o'r boblogaeth yn dweud 'ddim yn gwybod' pan ofynnir iddyn nhw ydyn nhw wedi cwrdd â rhywun traws.

## CYSYLLTIAD




# PENNOD 3
# SUT RYDYN NI'N TEIMLO

Mae'r cyhoedd yn llawer mwy tebygol o fod â theimladau cadarnhaol tuag at bobl LHDTC+ nag ydyn nhw o fod â theimladau negyddol. Ar draws ein sampl ledled gwledydd Prydain i gyd, gallwn weld bod menywod a phobl iau yn fwy tebygol o fod â theimladau cadarnhaol tuag at bobl LHDTC+ na dynion a phobl hŷn, patrwm sy'n gyffredin ar draws ystod eang o agweddau cymdeithasol.


Y peth mwyaf diddorol o bosib, o ystyried y sylw sydd ar bobl draws yn y wasg Brydeinig, a naws negyddol iawn llawer o'r sylw hwnnw, yw bod y ffordd mae'r cyhoedd yn teimlo yn gyson ar draws pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws.

## TEIMLADAU O BARCH




Y teimlad mwyaf cyffredin sydd gan y cyhoedd tuag at bobl LHDTC+ yw un o barch, gyda mwy na thraean o ymatebwyr yn dewis yr opsiwn yma. Roedd pobl yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo parch tuag at bobl lesbiaidd a hoyw (38% a 37%) nag at bobl ddeurywiol a thraws (32% a 31%).

## TEIMLADAU O EDMYGEDD




Mae cyfran sylweddol o'r cyhoedd hefyd yn teimlo edmygedd tuag at ein cymunedau. Fel parch, mae edmygedd yn deimlad penodol o gadarnhaol, felly mae'n drawiadol pa mor gyffredin yw'r ateb yma. Mae'r patrwm yma'n wahanol, gyda'r cyhoedd yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod yn edmygu pobl ddeurywiol na phobl lesbiaidd, hoyw neu draws. Mae'n werth ystyried a yw hyn o bosib yn ymwneud â deuffobia yn y gymdeithas, o ystyried bod ystrydebau deuffobaidd yn cynnwys y syniad bod pobl ddeurywiol yn annibynadwy neu'n anwadal. Mae teimladau o edmygedd ar eu huchaf ar gyfer pobl draws, sydd efallai'n adlewyrchu cydnabyddiaeth gyhoeddus o'r heriau mae pobl draws sy'n byw yng ngwledydd Prydain heddiw yn eu hwynebu.

## TEIMLADAU O DRUENI




Yn gyffredinol, mae'r cyhoedd yn llawer llai tebygol o deimlo trueni dros aelodau o'n cymuned nag maen nhw o'u parchu neu eu hedmygu. Fodd bynnag, mae patrwm clir a gwahanol yn yr ymatebion, gyda'r cyhoedd ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo trueni wrth feddwl am bobl draws o gymharu â phobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol.

Mae'n werth nodi bod trueni yn amwys. Mae'n bosib y byddwn yn teimlo trueni dros rywun oherwydd yr hyn rydyn ni'n ei feddwl o'u hunaniaeth, neu efallai y byddwn yn teimlo trueni drostyn nhw oherwydd yr hyn rydyn ni'n ei feddwl am sut brofiad yw byw bywyd fel rhywun sydd â'r hunaniaeth honno. Yn syml, fe allai'r lefelau cymharol uchel o drueni tuag at bobl draws fod oherwydd trawsffobia a/neu oherwydd pryder am effaith trawsffobia ar bobl draws.

## TEIMLADAU O FFIEIDD-DOD




Yn ffodus, nid yw teimladau o ffieidd-dod yn gyffredin ymhlith aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, hanner can mlynedd ar ôl yr orymdaith falchder gyntaf ar strydoedd Llundain, mae carfan fach ond arwyddocaol o'r cyhoedd yn teimlo ffieidd-dod wrth feddwl am bobl LHDTC+. Mae'r teimladau yma o ffieidd-dod yn ganolog i homoffobia, deuffobia a thrawsffobia, ac mae pobl sy'n teimlo fel hyn mewn perygl o achosi niwed i bobl LHDTC+ yn eu bywydau.

Mae hefyd yn drawiadol pa mor gyson yw'r darlun ar draws cymunedau. Diolch byth, mae'n llawer prinnach nag oedd hi ar un adeg i glywed ffieidd-dod yn cael ei fynegi am bobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol yn y sgwrs gyhoeddus ac yn y wasg. Ond mae'n gyffredin clywed straeon am bobl draws, ac yn arbennig cyrff pobl draws, sy'n llawn ffieidd-dod. Mae hyn yn aml yn cael ei adlewyrchu mewn trafodaethau yn y cyfryngau am hawliau pobl draws. Mae'r data yma'n awgrymu bod y cyfryngau'n chwyddleisio barn leiafrifol a niweidiol, yn hytrach nag yn adlewyrchu teimladau cyffredin pobl.

## TEIMLADAU O CHWERWDER




## TEIMLADAU O CHENFIGEN




Mae teimladau o chwerwder, a theimladau o genfigen hyd yn oed yn llai cyffredin, ac yn gyson ar draws ein holl gymunedau.

## TEIMLADAU O OFN





Yn olaf, fel gydag emosiynau negyddol eraill, dim ond canran fach o'r cyhoedd sy'n ofni aelodau o'r gymuned LHDTC+, ac mae'r ganran yma'n gyson ar draws yr holl grwpiau hunaniaeth.

Fel gyda theimladau o ffieidd-dod, mae'n drawiadol nad yw'r cyhoedd yn fwy tebygol o ofni pobl draws na phobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol. Mae llawer o'r sylw sy'n cael ei roi i bobl draws yn y cyfryngau ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar y syniad bod menywod traws yn fygythiad i fenywod cydryweddol, a bod menywod cydryweddol yn eu hofni o ganlyniad. Mae'r data yma'n awgrymu, fel gyda theimladau o ffieidd-dod, bod ein cyfryngau yn chwyddleisio barn leiafrifol, yn hytrach nag yn adlewyrchu teimladau cyffredin pobl.

# METHU DEWIS / DDIM EISIAU DWEUD

Cafodd aelodau'r cyhoedd oedd yn ymateb i'r arolwg yr opsiwn hefyd o ddweud 'ddim yn gallu dewis' opsiwn, yn ogystal â 'mae'n well gen i beidio dweud'. Mae'r ymatebion yma'n wahanol iawn i'w gilydd ac mae'n werth myfyrio arnyn nhw am ychydig.

## METHU DEWIS




Doedd tua thraean o'r cyhoedd ddim yn gallu dewis ymateb, gan awgrymu nad oedd yr un o'r teimladau gafodd eu cyflwyno iddyn nhw'n adlewyrchu eu meddyliau a'u teimladau eu hunain. Ni ddylid darllen hyn fel ymateb negyddol – mae'n debygol o adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys yr aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n teimlo'n fwy niwtral am bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws, ac yn ymwneud ag aelodau o'n cymuned ar sail unigol.

## MAE'N WELL GEN I BEIDIO DWEUD




Canran lai o'r cyhoedd ddewisodd yr opsiwn 'Mae'n well gen i beidio dweud'. Er y bydd sawl ysgogiad y tu ôl i'r ymateb yma hefyd, mae'n rhesymol tybio bod o leiaf rai o'r bobl yma'n teimlo'n negyddol tuag at bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws, ond eu bod yn anghyfforddus yn dweud hynny oherwydd eu bod yn ymwybodol y gallai'r ymatebion yma gael eu gweld fel rhai homoffobaidd, deuffobaidd neu drawsffobaidd (gelwir hyn yn 'duedd dymunolrwydd cymdeithasol'). Yr hyn sy'n drawiadol yma yw bod y ganran o bobl sy'n dewis 'mae'n well gen i beidio dweud' yn gymharol isel. Does dim 'mwyafrif tawel' sy'n teimlo'n negyddol am bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu draws.

# CHAPTER 4
# BETH MAE HYN YN EI OLYGU I GYMRU?

## CAMAU I'R CYFEIRIAD CYWIR

Mae'r data sydd ar gael yn dangos yn glir ein bod ni'n byw mewn gwlad sy'n fwy agored amrywiol nag erioed, gydag ychydig dros draean o boblogaeth Cymru'n disgyn rywle o dan yr ymbarél cwiar – er nad ydyn nhw o bosib yn arddel hunaniaeth sy'n rhan benodol o'r gymuned LHDTC+.

Mae cenedlaethau iau yn arbennig yn fwy tebygol o arddel hunaniaeth LHDTC+. Er bod hyn yn adlewyrchu'r angen i wneud llefydd yn fwy cynhwysol i aelodau hŷn ein cymuned, gallwn hefyd weld yr effaith mae diddymu Adran 28 wedi'i chael yng Nghymru: mae gan bobl ledled y wlad fynediad llawer gwell at wybodaeth a chymorth, sy'n eu grymuso i fyw a mynegi eu hunain yn rhydd, wedi'u croesawu fel aelodau gwerthfawr o gymuned ehangach Cymru.

Mae agweddau'r cyhoedd tuag at bobl LHDTC+ yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda theimladau o barch yn llawer mwy cyffredin na theimladau o ffieidd-dod, ofn, chwerwder a chenfigen. Er bod ein canfyddiadau yn sicr yn dangos yr angen am ragor o waith i gynyddu cydlyniant a chysylltiadau cymunedol, maen nhw hefyd yn dangos bod llawer o naratifau'r cyfryngau, sy'n awgrymu bod yna agweddau negyddol tuag at y gymuned LHDTC+, yn adlewyrchu barn lleiafrif yn unig mewn gwirionedd.

## MEITHRIN CYMUNEDAU

A dweud y gwir, mae llawer o bobl ledled Cymru naill ai'n nabod neu'n agos at aelod o'n cymuned, ac yn ymwybodol o ffigurau cyhoeddus ac yn y cyfryngau sy'n LHDTC+. Yn gyffredinol, mae pobl LHDTC+ yn cael eu cydnabod yn gynyddol yn eu cymunedau fel pwy ydyn nhw, ac yn cael mwy o groeso, cariad a chefnogaeth.

Mae llawer o bobl yng Nghymru yn teimlo bod ganddyn nhw lai o ffrindiau agos/teulu sy'n ddeurywiol neu'n draws nag o ffrindiau agos neu deulu hoyw neu lesbiaidd, sydd efallai'n arwydd o'r brwydrau penodol y gall pobl ddeurywiol a thraws eu hwynebu o ran dod allan, cael eu credu, neu brofi gwahaniaethu.

Ein cenhadaeth yw sicrhau bod y rhwystrau yma'n cael eu dileu, gan rymuso pawb sy'n LHDTC+ i ffynnu fel nhw'u hunain ymhlith eu ffrindiau, eu teulu, eu cydweithwyr a'u cydnabod.

# BETH NESAF?

Rydyn ni'n gwybod nad oes lle i wahaniaethu yng ngwerthoedd Cymru. Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn ogystal â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu HIV Cymru i gyd yn adlewyrchu symudiad ar y cyd gan boblogaeth sy'n deall gwerth llesiant, hunanbenderfyniad a'r grym i fynegi'ch hunan yn rhydd. Fydd y cynlluniau yma ddim yn gallu gweithio mewn seilos; mae'n rhaid iddyn nhw barhau i ddefnyddio dull cyfannol i sicrhau bod yr anghenion yma'n cael eu diwallu i bawb ledled Cymru, gan ddileu rhwystrau i gefnogi pobl sydd â nifer o hunaniaethau rhyngblethol.

Mae gweithio ar y cyd i ddiwygio mynediad at ofal iechyd, rhyddid rhag gwahaniaethu yn y gwaith ac yn yr ysgol, a grymuso pobl â'r wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw i ofalu amdanyn nhw'u hunain ac eraill, yn rhan allweddol o ddyhead y Llywodraeth i sicrhau mai Cymru fydd y wlad fwyaf LHDTC+-gyfeillgar yn Ewrop.

Yn fwy na hynny, mae llwyddiant busnesau, mentrau cymdeithasol, systemau cydgymorth a phobl greadigol LHDTC+ Cymru yn dangos ein bod yn bair o weithgarwch ac yn cael ein gweld yn gynyddol ar fap y Deyrnas Unedig fel gwlad sy'n dathlu'r gwahanol hunaniaethau a diwylliannau sy'n ein gwneud ni'r hyn ydyn ni.

**MAE'R DATBLYGIADAU GWYCH YNA'N EIN GWNEUD YN FALCH O GAEL CHWARAE EIN RHAN NI FEL GWLAD YN Y DARLUN EHANGACH I GREU ENFYS AR DRAWS GWLEDYDD PRYDAIN A'R TU HWNT.**

**PRYDAIN ENFYS YW'R PRESENNOL A'R DYFODOL.**

**RYDYN NI YMA. RYDYN NI'N FALCH.**

CYMRU ENFYS